# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2022**

**TGAU**
**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 3**
**3020U30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 3**

**HAF 2022**

## ADRAN A

### A1:

Dewis y lluniau cywir – **3 marc** (1 marc yr un)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| ✓ | ✓ | | ✓ | |

### A2:

Llenwi’r grid = 6 marc
- Siocledi Cathryn Cariad / Cathryn Cariad / Cathryn / Cariad / (1 marc)
- 01766 702796 (1 marc)
- www.cathryncariad.com (1 marc)
- ardal Eryri / Gogledd Cymru / Eryri / Cymru / yn y Gogledd (1 marc)
- mintys / mafon / oren / sinsir / coffi / cnau coco / leim (2 flas = 1 marc – hyd at y 2 farc posibl)

### A3:

Aml-ddewis = 8 marc
- yn y Gogledd(1 marc)
- 1 – 49 (1 marc)
- mwy na 12 blas (1 marc)
- ei deulu (1 marc)
- bach (1 marc)
- llaethdy (1 marc)
- Lloegr, Cymru (2 farc)

© WJEC CBAC Cyf.

**A4 = 10 marc**

Cywir / Anghywir = 2 farc yr un

| | CYWIR | ANGHYWIR |
|---|---|---|
| Mae cig oen yn boblogaidd bob blwyddyn. | ✓ | |
| Roedd mwy o bobl yn hoffi caws yn 2017 na 2018 a 2019 | ✓ | |
| Mae pice ar y maen/cacenni cri a bara brith ar y rhestr bob blwyddyn | | ✓ |
| Mae mwy a mwy o bobl yn hoffi cawl bob blwyddyn | ✓ | |

Beth wyt ti'n hoffi ar restr 2019? Unrhyw ateb **<u>o'r rhestr</u>** = 1 marc
Caws Caerffili / caws / cig oen / cawl / selsig Morgannwg / selsig / pice ar y maen / cacennau cri / cacenni cri / bara brith / ddim yn hoffi dim byd ar y rhestr

Rheswm synhwyrol / dealladwy = 1 marc

**A5:** Cwmni Dŵr Tŷ Nant = 12 marc

**Rhan 1**
E-bost 1 (3 marc)
3 phwynt = 3 marc (rhaid cael 2 bwynt yn cyfeirio at yr elusen)
Cyfarch / cloi / diolch am gwestiynau = 1 marc
E-bost 2 (3 marc)
3 phwynt = 3 marc (rhaid cael 1 pwynt yn cyfeirio at y teledu ac 1 pwynt yn cyfeirio at y ffilmiau)
Cyfarch / cloi / diolch am gwestiynau = 1 marc

**Rhan 2**
Creu poster i'r ganolfan hamdden (6 marc)
Angen dewis rhesymau synhwyrol = 3 rheswm (2 farc yr un)
e.e. yfed dŵr yn helpu i gadw'n iach / yn well na'r caniau siwgr / helpu wrth ymarfer / yn dda i'r corff / yn helpu colli pwysau

**A6: 10 marc** - Cywiro neges i'r staff

1 marc yr un am gywiro pob camgymeriad. **Nid oes rhaid i'r atebion canlynol fod mewn trefn**.

1) bwysig
2) rydyn / rydym / dyn ni / dan ni
3) ym
4) Fydd
5) Mercher
6) o'r gloch
7) bawb
8) Yn
9) oes
10) e-bostiwch / ebostiwch / e-bostwch / ebostwch

**A7: 6 marc**

Cyfarchiad = 1 marc (cyfarchiad syml e.e. Shwmae / Bore da yn ddigonol)

Pwyntiau am y clybiau 5 x 60 = unrhyw 2 bwynt = 2 farc ac unrhyw bwynt ychwanegol = 2 farc ychwanegol

e.e. targed y llywodraeth / helpu pobl ifanc / helpu byw yn iach / dewis chwaraeon poblogaidd / rhestru chwaraeon posib / dewis chwaraeon heriol a chyffrous / dewis chwaraeon newydd / gwrando ar bobl ifanc / siarad gyda rhieni, ysgolion a chlybiau / clybiau yn llwyddo

Clo = 1 marc (e.e. manylion cyswllt, diolch, hwyl fawr, diolch am ddarllen …)

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B**

**B8:** 15 marc

(i) Sut gallai'r bobl helpu: 3 marc (1 marc yr un)

Jenny: Helpu ar y penwythnos / helpu am ddiwrnod / prynu ar eBay / helpu talu am fwyd
Alys Griffiths: helpu talu am fwyd / prynu o'r siop ar eBay
Mr & Mrs Collins a'r teulu: mynd i'r noddfa ar ddydd Sadwrn / helpu talu am fwyd / prynu o'r siop / prynu o'r siop ar eBay / helpu ar y penwythnos / prynu tocyn teulu

(ii) a) 3 phwynt adborth – 1 positif, 1 negyddol ac 1 arall (1 marc yr un)

Pwyntiau positif
Plant yn hapus / plant yn hoffi dysgu am yr anifeiliaid / y mwncïod yn edrych yn hapus / yr arian yn mynd at yr anifeiliaid / staff cyfeillgar / maes parcio cyfleus / brechdanau blasus

Pwyntiau negyddol

Yn ddrud / dim dewis bwyd yn y caffi

(ii) b) Ymateb i ateb y rheolwr – 5 marc
Ydw / Nac ydw neu ateb addas: 1 marc

Rhesymau – hyd at 4 marc

Copïo'n slafaidd o'r ebost ei hunan= 1 marc
Rheswm synhwyrol / dealladwy = 2 farc

(iii) Creu cwestiynau i un o'r noddwyr – 4 marc

Nid oes angen i'r cwestiynau fod yn berthnasol i'r noddfa.

e.e. Ydych chi'n dod i'r noddfa yn aml? / Pam ydych chi'n noddi'r lle yma? / Beth ydych chi'n hoffi am y noddfa? / Pwy ydy eich hoff anifail? / Ydych chi wedi bod yma gyda'r teulu? / Ydych chi'n helpu glanhau a bwydo'r anifeiliaid / Wyt ti'n mwynhau dod i Gymru? / Hoffet ti ddysgu Cymraeg? / Pwy ydy dy hoff gymeriad ar 'Gavin and Stacey'?
Ni ellir gwobrwyo ateb sy'n cael ei gynnig yn y testun. e.e Ble wyt ti'n byw, Graham Norton? Wyt ti'n hoffi Cymru, Sheridan Smith?

**B9: Cyfieithu**

Cyfieithu hysbyseb **– 10 marc** (1 marc am bob gair / ymadrodd)

Dyma'r cyfieithiadau awgrymedig ar gyfer yr ymadroddion gwahanol ond edrychir ar atebion posibl eraill yn ystod y cyfarfod marcwyr.

1) Hoffech chi / Hoffet ti / Wyt ti eisiau / Wyt ti'n hapus / Ydych chi'n hapus / Wyt ti'n hoffi / Fysech chi'n hoffi / Fysech chi'n hapus / Fasech chi'n hoffi / Fasech chi'n hapus / Fyse(t) ti / Fase(t) ti / Wyt ti'n moen / Wyt ti'n moin
2) helpu
3) Rydyn ni eisiau / Mae angen / Mae eisiau / Rydym (yn) angen / dyn ni eisiau / dan ni eisiau / moin / moen
4) Pobl ifanc / pobl ifainc/ bobl ifanc/ bobl ifainc
5) Bob penwythnos / ar y penwythnos / penwythnos / dydd Sadwrn a dydd Sul
6) Yn enwedig / yn bendant / yn arbennig / fel arfer
7) Bore Sul / bore dydd Sul / dydd Sul
8) Cysylltwch â Hywel / *Ffoniwch / Siaradwch / Cliciwch / Rhaid i ti ffonio
9) yn y swyddfa / yn yr swyddfa / mewn swyddfa / yn y gwaith / mewn gwaith
10) Rhif ffôn Hywel / *Ffoniwch Hywel / Rhif Hywel (* i'w ddefnyddio/gwobrwyo yn un o'r cwestiynau hyn yn unig)

1 marc ychwanegol yn bosibl am unrhyw **2** o'r geiriau canlynol : Rydyn ni / eisiau / pobl / ifanc / Sul / swyddfa / rhif / bob / bore / ffôn / hoffet / hoffech

**C10: Ysgrifennu – [10 + ✓ = 10] = [20]**

(a) **Naill ai:**

Rydych chi eisiau rhoi Cymru ar y map. Felly, rydych chi'n ysgrifennu erthygl fer ar gyfer cylchgrawn yn cyflwyno Cymru – y wlad a'i photensial. (Tua 150 gair)

Rhaid i chi gynnwys:

- eich enw a'ch rheswm dros ysgrifennu (gwobrwyo 1 marc)
- cyflwyniad i Gymru (gwobrwyo hyd at 2 farc)
- y pethau da am Gymru e.e. y cynnyrch, yr hanes a'r iaith, yr atyniadau (gwobrwyo hyd at 2 farc )
- dyfodol Cymru (gwobrwyo hyd at 2 farc)
- unrhyw bwyntiau ychwanegol, perthnasol e.e. dyfodol yr iaith (gwobrwyo hyd at 2 farc)
- diwedd priodol (gwobrwyo 1 marc)

(b) **Neu:**

Mae sawl cyfle i wneud gwaith gwirfoddol yn eich ardal. Rhaid i chi ysgrifennu llythyr cais yn esbonio pa fath o waith hoffech chi gael a pham rydych chi eisiau helpu eraill. (Tua 150 gair)

Rhaid i chi gynnwys:

- eich enw a'ch rheswm dros ysgrifennu (gwobrwyo 1 marc)
- gwybodaeth am y gwaith hoffech chi wneud (gwobrwyo hyd at 2 farc)
- cymwysterau a sgiliau (gwobrwyo hyd at 2 farc)
- eich rhesymau dros helpu eraill gyda'r gwaith gwirfoddol (gwobrwyo hyd at 2 farc)
- unrhyw bwyntiau ychwanegol, perthnasol e.e. pa yrfa yn y dyfodol? / rhywun i ysgrifennu geirda (gwobrwyo hyd at 2 farc)
- diwedd priodol (gwobrwyo 1 marc)

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN C: Ysgrifennu** **[10 + ✓ =10] = [20]**

**C10:** **Naill ai:** Erthygl fer ar gyfer cylchgrawn yn cyflwyno Cymru. **Neu**: Llythyr cais yn esbonio pa fath o waith hoffech chi gael a pham rydych chi eisiau helpu eraill.

**Ni ellir gwobrwyo marc am y mynegiant os yw'r marc cynnwys yn sero.
** Nid oes modd ennill marc mynegiant sy'n uwch na'r marc cynnwys.

| **CYNNWYS** | | **MYNEGIANT** | |
|---|---|---|---|
| **Band 5**<br><br>**9-10 marc**<br>Rhaid cynnwys 3 phwynt bwled yn cynnwys pwyntiau bwled 2, 3 a 4 | • Cynllun rhagorol ac adeiladwaith grefftus<br>• Amrywiaeth eang o syniadau a barn<br>• Mynegi barn yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol a chynnig tystiolaeth i gefnogi barn<br>• Gwaith gafaelgar sy'n creu naws ac awyrgylch pwrpasol | **Band 5**<br><br>**9-10 marc** | • Cyfathrebu'n hyderus iawn gydag elfen gref o gywirdeb<br>• Defnyddio **ystod eang** ac amrywiol o ymadroddion cwestiynau a phatrymau brawddegol<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) **yn gyson gywir**<br>• Sillafu ac atalnodi cywir |
| **Band 4**<br><br>**6-8 marc**<br>Rhaid cynnwys 2 bwynt bwled yn cynnwys pwyntiau bwled 2, 3 a 4 | • Cynllunio amlwg a dilyniant priodol<br>• Peth amrywiaeth o ran syniadau a barn<br>• Mynegi barn yn weddol hyderus gan roi rhesymau dilys i gefnogi barn<br>• Gwaith diddorol gydag ymdrech i greu naws ac awyrgylch pwrpasol | **Band 4**<br><br>**6-8 marc** | • Cyfathrebu'n rhwydd gydag elfen amlwg o gywirdeb<br>• Defnyddio **ystod** o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) **yn gywir ar y cyfan**<br>• Sillafu ac atalnodi eithaf cywir |
| **Band 3**<br><br>**3-5 marc**<br>Rhaid cynnwys 2 bwynt bwled yn cynnwys pwyntiau bwled 2, 3 neu 4 | • Ôl cynllunio a dilyniant gweddol naturiol<br>• Digonol o ran syniadau a barn<br>• Mynegi barn yn ddigon effeithiol gan roi rhesymau digonol ar y cyfan<br>• Gwaith gweddol ddiddorol sydd yn llwyddo i gadw ein diddordeb | **Band 3**<br><br>**3-5 marc** | • Cyfathrebu'n weddol rhwydd gyda'r iaith yn weddol gywir ar y cyfan<br>• Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol sylfaenol<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn weddol gywir<br>• Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir |

| CYNNWYS | | MYNEGIANT | |
|---|---|---|---|
| **Band 2**<br><br>**1-2 marc**<br>Rhaid cynnwys cyfeiriad at o leiaf 1 pwynt bwled | • Ychydig o dystiolaeth o gynllunio ac ambell ddarn yn datblygu yn synhwyrol<br>• Arwynebol iawn o ran syniadau a barn<br>• Mynegi barn yn sylfaenol iawn gan gynnig ambell reswm syml<br>• Gwaith gweddol ddiddorol | **Band 2**<br><br>**1-2 marc** | • Cyfathrebu'n ddealladwy gyda pheth cywirdeb iaith gyda'r elfennau syml yn unig<br>• Defnydd cyfyngedig o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) gyda pheth cywirdeb. Peth cywirdeb o'r ffurfiau berfol (amser a pherson) gan ddibynnu'n ormodol ar y presenno<br>• Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn weddol gywir |
| **Band 1**<br>**0 marc** | Ymateb amhriodol neu heb ymateb | **Band 1**<br>**0 marc** | Mynegiant amhriodol neu heb ymateb |



© WJEC CBAC Cyf.